***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2003 Rhif 169 (Cy.29)

# ANIFEILIAID, CYMRU

## IECHYD ANIFEILIAID

## Gorchymyn Crynoadau Anifeiliaid (Mesurau Dros Dro) (Cymru) (Diwygio) 2003

| | | | |
|---|---|---|---|
| *Wedi'i wneud* | - | - | *30 Ionawr 2003* |
| *Yn dod i rym* | - | - | *31 Ionawr 2003* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru a'r Ysgrifennydd Gwladol, a hwythau'n gweithredu ar y cyd wrth arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adrannau 1, 7, 8 a 83 o Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 1981(**1**) yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

**Teitl, cymhwyso a chychwyn**

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Crynoadau Anifeiliaid (Mesurau Dros Dro) (Cymru) (Diwygio) 2003; mae'n gymwys i Gymru yn unig ac yn dod i rym ar 31 Ionawr 2003.

**Diwygiad i Orchymyn Crynoadau Anifeiliaid (Mesurau Dros Dro) (Cymru) 2002**

**2.** Yn Erthygl 1(2) o Orchymyn Crynoadau Anifeiliaid (Mesurau Dros Dro) (Cymru) 2002(**2**) mae'r geiriau "1 Ebrill 2003" yn cael rhoi yn lle "1 Chwefror 2003".

(**1**) 1981 p. 22. Trosglwyddwyd swyddogaethau a roddwyd o dan Ddeddf 1981 i "the Ministers" (fel y'u diffinnir yn adran 86 o'r Ddeddf honno) i'r graddau yr oeddent yn arferadwy gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru mewn perthynas â Chymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672). Trosglwyddwyd swyddogaethau ar y cyd "the Ministers" a oeddent yn arferadwy gan Ysgrifennydd Gwladol yr Alban mewn perthynas â Chymru i'r Gweinidog Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd gan Orchymyn Trosglwyddo Swyddogaethau (Amaethyddiaeth a Bwyd) 1999, O.S. 1999/3141. Cafodd pob un o swyddogaethau'r Gweinidog Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd eu trosglwyddo ymhellach wedyn i'r Ysgrifennydd Gwladol gan Orchymyn y Weinyddiaeth Amaethyddiaeth Pysgodfeydd a Bwyd (Diddymu) 2002 (O.S. 2002/794).

(**2**) O.S. 2002/283 (Cy. 34) fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2002/1358 (Cy.134), O. S. 2002/2060 (Cy. 209) ac O.S. 2002/2304 (Cy. 229).

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru

*D.Elis-Thomas*
29 Ionawr 2003 Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

*Whitty*
Yr Is-Ysgrifennydd Seneddol Adran yr
30 Ionawr 2003 Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig

---

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio Gorchymyn Crynoadau Anifeiliaid (Mesurau Dros Dro) (Cymru) 2002 (O.S. 2002/283 (Cy. 34) fel y'i diwygiwyd) fel bod effaith y Gorchymyn hwnnw yn parhau tan 1 Ebrill 2003.